

Synnwyr Cyffredin ar Siarad yn Ofalus Ar-lein

Beth yw'r Mater Dan Sylw?

Mae plant wrth eu boddau yn cysylltu gydag eraill ar-lein. Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn siarad ar-lein gyda ffrindiau a theulu yn unig. Ond fel rhiant, efallai eich bod yn poeni gallai dieithryn gyda bwriad drwg (predator) gysylltu â'ch plentyn.

Ymddygiad rheibus (predatory) ydy pan fydd pobl yn cysylltu â'ch plentyn dros y rhyngwrwyd (trwy negeseuo sydyn, ystafelloedd sgwrsio, neu wefannau rhwydweithio cymdeithasol ran amlaf) a cheisio "paratoi" (groom) eich plentyn ar gyfer perthynas. Mae'r bobl yma yn ceisio ennill ffydd plant drwy guddio pwy ydynt mewn gwirionedd. Efallai byddant yn ceisio cael plant i mewn i sefyllfaoedd iasol neu beryglus drwy smalio cael diddordebau tebyg, rhoi canmoliaeth, a gadael iddynt siarad am beth bynnag hoffant. Fel arfer maent yn dweud wrth y plant gadw'r cyfeillgarwch yn gyfrinach, ac efallai byddant yn bygwth plant os ydynt yn dweud wrth rywun. Wrth i'r perthynas ddatblygu, efallai bydd y person rheibus yn gyrru lluniau, gofyn i blentyn i yrru lluniau iddynt, ac yna gofyn i gael cyfarfod wyneb i wyneb.

Pam Bod Hyn o Bwys?

Mae'n hanfodol i ddysgu eich plentyn i fod yn effro am sut mae pobl reibus yn paratoi eu targedau er mwyn cadw eich plentyn yn ddiogel. Gyda phlant bach iawn, mae'n well os ydych chi'n bresennol pan fyddant ar-lein. Yn yr oedran yma, efallai byddech yn dewis blocio eich plant rhag siarad ar-lein, neu greu rheolau llym i'w dilyn am bwy allent siarad â nhw. I blant ysgol elfennol hŷn, efallai byddech yn dewis rhoi mwy o ryddid iddynt ar ôl trafod yn gyntaf sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Dywedai synnwyr cyffredin

Trafodwch ymddygiad ar-lein cyfrifol. Sefydlwch reolau am negeseuo sydyn a sgwrsio ar-lein addas, ac esboniwch eich bod yn gorfodi'r rheolau yma am eich bod yn poeni am eu diogelwch. Efallai hoffech ofyn i frawd neu chwaer hŷn i arddangos ymddygiad ar-lein da ac aros yn rhan o fywyd ar-lein eu brawd neu chwaer iau.

Sefydlu rheolau am bwy sy'n iawn i siarad â nhw. Yn gyffredinol dylai sgwrs ar-lein fod efo pobl mae eich plant yn adnabod, fel teulu a ffrindiau.

Gosodwch ffiniau am ba bynciau sy'n iawn i'w trafod. Ni ddylai plant ateb cwestiynau ar-lein sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyffyrddus. Ni ddylent siarad am bynciau oedolion gyda dieithrion.

Sicrhewch fod eich plentyn yn teimlo'n ddiogel yn dweud wrth oedolyn maent yn ymddiried ynddynt. Os yw rhywbeth iasol neu amhriodol yn digwydd ar-lein, mae pobl ifanc angen gwybod nad fyddant mewn trafferth os ydynt yn dweud wrth oedolyn maent yn ymddiried ynddynt. Hefyd, osgowch eu gwahardd o'r cyfrifiadur. Mae plant yn llai tebygol o ddweud wrth rieni pan fyddant yn wynebu problem ar y cyfrifiadur os ydynt yn meddwl, oherwydd hyn, byddant yn cael eu gwahardd o'i ddefnyddio.

Synnwyr Cyffredin ar Siarad yn Ofalus Ar-lein

Atgoffwch eich plant i beidio rhoi wybodaeth breifat i ddieithrion. Dylai plentyn byth roi ei enw, cyfeiriad, ysgol, rhif ffôn, e-byst, lluniau, neu unrhyw wybodaeth gallai rhoi gwybod pwy ydynt.

Blocio, anwybyddu, neu adael. Mae'r mwyafrif o blant yn gwybod sut i gael gwared ar gyswllt digroeso. Anogwch yr ymddygiad yma.

Chwiliwch am rybuddion. Ydy'ch plentyn chi wedi mynd i mewn i'w gragen, yn bell yn emosiynol, yn treulio oriau diddiwedd ar-lein, neu'n ymddangos fel ei fod yn cuddio rhywbeth? Mae plant sydd yn cychwyn perthnasau ar-lein amhriodol yn aml yn dangos arwyddion rhybudd. Efallai bod nhw'n cuddio perthynas ar-lein nad ydynt am i chi wybod amdano. Os ydych chi'n tybio efallai bod hyn yn digwydd, gofynnwch i'ch plentyn!